# SL(6)609 – Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016") (y cyfeirir atynt ar y cyd fel y "Gorchmynion Gweithdrefn") mewn perthynas ag ymgynghori cyn gwneud cais ac ymgynghori cyn rhoi caniatâd cynllunio.

Mae'r Gorchmynion Gweithdrefn yn gosod gofyniad statudol i ymgynghori â chyrff allweddol ar y camau ymgynghori cyn gwneud cais ac ar ôl cyflwyno o brosesau cydsynio ceisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r Gorchmynion Gweithdrefn hyn er mwyn diweddaru'r meini prawf ar gyfer ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar faterion sy'n ymwneud â pherygl llifogydd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Gorchymyn yn egluro (ym mharagraff 1.3) fod angen y diwygiadau hyn yn sgil y penderfyniad i gyflwyno map newydd, o'r enw "y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio", yn lle'r map llifogydd a ddefnyddir at ddibenion cynllunio ("y Map Cyngor Datblygu"). Gyda'r Map Cyngor Datblygu yn dod i ben at ddibenion cynllunio unwaith y daw'r map newydd i rym, "*mae angen diwygio'r* [Gorchmynion Gweithdrefn] *i alinio'r gofynion i ymgynghori ag CNC ar ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd gyda'r parthau llifogydd a ddisgrifir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.*"

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd annilysu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae’r Gorchymyn yn defnyddio enwau gwahanol ar gyfer y corff a elwir yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae erthyglau 2(2) a 3(2) yn cyfeirio at y corff fel “Corff Adnoddau Naturiol Cymru, ond mae erthyglau 2(3) a 3(3) yn cyfeirio at “Cyfoeth Naturiol Cymru”.

Mae’r Nodyn Esboniadol hefyd yn cyfeirio at “Corff Adnoddau Naturiol Cymru” ar ddau achlysur, er y nodir nad yw’r Nodyn Esboniadol yn rhan o’r Gorchymyn.

Nodir bod Gorchymyn 2012 a Gorchymyn 2016 yn defnyddio “Corff Adnoddau Naturiol Cymru” drwyddi draw. Fodd bynnag, o ganlyniad i’r Gorchymyn, defnyddir enwau gwahanol i gyfeirio at yr un corff yng Ngorchymyn 2012 a Gorchymyn 2016. Mae hyn yn anghyson ac yn gallu peri dryswch.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi’r pwynt y defnyddir “Corff Adnoddau Naturiol Cymru” a “Cyfoeth Naturiol Cymru” yn y Gorchymyn. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y drafftio yn peri dryswch i’r darllenydd, cytunir y byddai wedi bod yn well pe bai’r drafftio yn gyson. Eir i’r afael â hyn yn y cyfrwng deddfwriaethol addas nesaf cyn diwedd y flwyddyn.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.